



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru
Ffederasiwn y Diwydiant Electroneg
Gweithredwyr Ffoniau Symudol
Busnes Cymru

Eich cyf . Your ref
Ein cyf . Our ref

31 Ionawr 2003

Annwyl Syr/ Madam,

10 YMRWYMIAD GWEITHREDWYR FFONIAU SYMUDOL

Yn unol ag argymhelliad Adroddiad Grŵp Arbenigwyr Annibynnol ar Ffoniau Symudol (Adroddiad Stewart) i fod yn rhagofalus wrth ymdrin â thechnoleg ffoniau symudol, mae Ffederasiwn y Diwydiant Electroneg, ar ran y gweithredwyr ffoniau symudol wedi ymgymryd â'r dasg o weithredu'r deg ymrwymiad gorau o ran arferion lleoli.

Ar 24 Mai 2002, ysgrifenasom at awdurdodau cynllunio lleol a'r Ffederasiwn i gael eu sylwadau ar y datblygiad gan weithredwyr ffoniau symudol mewn perthynas â'r ymrwymladau canlynol:

- a. gwella'r ymgynghori â chymunedau lleol (cyn cyflwyno cais ac wrth wneud cais);
- b. cymryd rhan yn ymgynghoriadau gyda'r awdurdod cyn gosod mastiau a chyn gwneud cais;
- c. rhannu safleoedd a mastiau (lle y bo hynny'n briodol);



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel:
GTN:
Ffacs • Fax:
Ebst • Email:

- ch. sefydlu gweithdai datblygu;
- d. darparu tystysgrifau cydymffurfio â chanllawiau ICNIRP;a
- dd. cyflwyno dogfenni safonol i ategu pob cais.

Atebodd deuddeg o'r 25 awdurdod cynllunio lleol ac atodir crynodebau o'u hatebion ac ateb y Ffederasiwn.

Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r Ffederasiwn wedi penodi cwmni archwilio i ymgymryd ag "Adolygiad o Weithredu'r Deg Ymrwymiad". Bydd prif bwyslais yr adolygiad ar y broses o gaffael safleoedd ar gyfer gorsafoedd ffoniau symudol ond fydd yn cynnwys crynodeb lefel uchel ar ddatblygiad y deg ymrwymiad. Bydd yr archwilwyr yn gyfrifol am lunio **barn annibynnol** ynglŷn ag a yw'r gweithredwyr wedi gwneud datblygiadau amlwg i gyflawni eu hymrwymadau. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynghori ar "sicrhau y safonau gofynnol sydd eu hangen ymhob busnes gweithredwr yn y dyfodol".

Mae'n anodd dod i gasgliad pendant o ran i ba raddau mae'r diwydiant yn cyflawni'r ymrwymadau hyn oherwydd:

- a. roedd nifer yr ymatebion yn lled isel
- b. roedd yr ymatebion i'r rhan helaeth o'r ymrwymadau yn gymysg yn enwedig y rhai hynny a oedd yn berthnasol i ymgynghori ag awdurdodau a chymunedau a rhannu safleoedd mastiau; a
- c. ni fu ond amser byr ers pan lanswyd yr ymrwymadau.

Dywed y Ffederasiwn y trefnir cwblhau'r adolygiad annibynnol cyn diwedd y mis a gobeithiwn y bydd y canfyddiadau yn cyfleu darlun llawer mwy clir o'r datblygiadau a wnaethpwyd gan y gweithredwyr. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn enwedig yng nghyswllt canlyniadau'r archwiliad hwn.

Yr eiddoch yn gywir

LINDSAY J ROBERTS
Adran Gynllunio